



100
1922 - 2022



**Neges Heddwwch
ac Ewyllys Da**

**Peace and
Goodwill Message**

Sut i gefnogi Neges Heddwwch Argyfwng Hinsawdd ar 18 Mai 2022

Ym mlwyddyn canmlwyddiant yr Urdd rydym eich angen chi i sefyll gyda'n pobl ifanc, i godi llais ar draws y byd ac i ddatgan eich cefnogaeth i beidio gohirio'r agenda argyfwng hinsawdd.



Twitter: [@Urdd](#)



Instagram: [@UrddGobaithCymru](#)



Facebook.com/[urddgobaithcymru](#)

Cefnogwch ni ar y cyfryngau cymdeithasol ar 18 Mai.

Manylion ar sut i wneud ar y dudalen nesaf.

#Heddwwch100

Cefndir:

Gwaith dyngarol yr Urdd, cefnogi ffoaduriaid a pheidio gohirio'r agenda argyfwng hinsawdd:

Urdd Gobaith Cymru yw mudiad ieuenctid cenedlaethol mwyaf Cymru, ac ers 1922, mae'r Urdd wedi darparu cyfleoedd unigryw i fwy na 4 miliwn o blant a phobl ifanc Cymru, mewn gweithgareddau chwaraeon, celfyddydol, gwirfoddol, dyngarol, preswyl, awyr agored a phrentisiaethau.

Bob blwyddyn ers canrif mae pobl ifanc Cymru wedi rhannu neges o heddwwch, gyda'r nod o uno plant a phobl ifanc, i leihau rhagfarn ac anwybodaeth a phwysleisio'r hyn sy'n gyffredin rhwng holl bobl ifanc y byd. Mae'n gwbl unigryw i Gymru.

Mae hyrwyddo brawdgarwch rhwng gwledydd a darparu cymorth dyngarol wrth wraidd gwerthoedd yr Urdd ers ei sefydlu. Ac yn ddiweddar bu un o Wersylloedd yr Urdd yn lloches i ffoaduriaid o Affganistan, a nawr, o dan gysgod rhyfel eto mae'r Urdd yn agor ei ddrysau i ffoaduriaid o Wcráin.

Argyfwng Hinsawdd:

Law yn llaw wrth estyn cymorth i'r rhai sy'n dioddef o achos y rhyfel mae'r Urdd am dynnu sylw at bwysigrwydd peidio gohirio'r agenda argyfwng hinsawdd. Gobeithiwn yn fawr gallwch ein cefnogi yn 2022.

Mae ein neges argyfwng hinsawdd yn alwad ar y byd i weithredu, i

ddefnyddio pwysigrwydd a phŵer ein llais i erfyn ar lywodraethau a chorfforaethau mawr i weithredu ar frys er mwyn atal newid hinsawdd.

Crëwyd Neges Heddwwch ein canmlwyddiant mewn cydweithrediad gyda myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth. Gellir ei darllen [yma](#).

Cyrhaeddiad ac effaith y neges:

Mae'r ymateb twymgalon sy'n dod gan blant a phobl ifanc ar draws y byd pob blwyddyn yn brawf o effaith a chyrhaeddiad y Neges Heddwwch. Mae esiamplau i'w gweld [yma](#). A bob blwyddyn mae cyrhaeddiad y neges wedi tyfu. Cafodd Neges 2021 ar y thema o Gydraddoldeb i Ferched ei chyfieithu i 65 o ieithoedd, ei gweld mewn 59 gwlad a chyrraedd dros 84 miliwn o bobl ledled y byd.

Rhannwyd y neges gan wleidyddion, sefydliadau ac enwogion ar draws y byd gan gynnwys:

- [Hillary Clinton](#)
- [UN Women](#)
- [Cerys Matthews](#)
- [Michael Sheen](#)
- [Catherine Zeta Jones](#)
- [Matthew Rhys](#)





Ar ran ein 55,000 o aelodau, a'r miliynau sydd wedi bod yn aelodau o'r Urdd dros y degawdau, gofynnwn am eich cefnogaeth ar 18 Mai 2022.

Ar 18 Mai bydd ein Neges Heddwch ar ffurf fideo wedi ei binio i frig ein cyfrifon cymdeithasol a gofynnwn i chi ei rhannu ar Facebook ac Instagram ac ar ffurf 'quote Retweet' ar Twitter. Dyma argymhellion pellach:



Prifysgol Aberystwyth @Prifysgol_Aber

Cymerwch funud i wyllo a rhannu'r neges anhygoel yma gan bobl ifanc Cymru am yr **#ArgyfwngHinsawdd**. Rydym ni'n cefnogi'r neges ac yn sefyll gyda chi, @Urdd! **#Heddwch100**



Urdd Gobaith Cymru @Urdd

Mae'n amser deffro!
Mae pobol ifanc Cymru yn galw ar bawb ar draws y byd i beidio gohirio'r agenda **#ArgyfwngHinsawdd**.
We mustn't postpone the **#ClimateEmergency** agenda, act now, it's time to wake up!
#Heddwch100



Climate Cymru @ClimateCymru

Mae pobl ifanc Cymru wedi rhannu neges o heddwch pob blwyddyn ers 1922! Mae neges eleni wedi ei gyfieithu i 100 iaith, gan gynnwys **[EICH IAITH]**. Rydyn ni'n cefnogi eu galwad am weithredu ar yr **#ArgyfwngHinsawdd**. **#Heddwch100**



Urdd Gobaith Cymru @Urdd

Mae'n amser deffro!
Mae pobol ifanc Cymru yn galw ar bawb ar draws y byd i beidio gohirio'r agenda **#ArgyfwngHinsawdd**.
We mustn't postpone the **#ClimateEmergency** agenda, act now, it's time to wake up!
#Heddwch100



Cysylltwch â heddwch@urdd.org am fwy o wybodaeth.

Diolch gymaint am eich cefnogaeth!

Eisiau gwneud mwy?

- **100 gwlad a 100 iaith:**
Rydym yn anelu i gyrraedd dros 100 gwlad, gyda'r neges ar gael mewn dros 100 o ieithoedd. Gellir gweld yr holl ieithoedd [yma](#). Os ydych yn postio o du allan i Gymru, defnyddiwch hashnod y wlad e.e **#Deutschland #USA**. Peidiwch anghofio **#Heddwch100** gan annog eich ffrindiau ar draws y byd i rannu hefyd.
- **Recordiwch y neges mewn un o 100 o ieithoedd.** Rhannwch hwn ar 18 Mai gan ddefnyddio **#Heddwch100** hashnod y gwlad a hashnod y iaith.
- **Pecyn Addysg:** Mae'r Urdd wedi cydweithio gyda Chanolfan Materion Rhyngwladol Cymru (WCIA) a Climate Cymru i greu pecyn addysg argyfwng hinsawdd, sy'n ganllaw i athrawon, er mwyn ymbweru ac addysgu plant a phobl ifanc am yr argyfwng hinsawdd. [Cofrestrwch yma](#) i dderbyn y pecyn addysg.
- **Sicrhewch** fod pawb yn eich gweithle, teulu neu sefydliad yn cefnogi llais pobl ifanc Cymru ar 18 Mai gan rannu'r neges heddwch.

#Heddwch100



@Urdd



Urdd Gobaith Cymru



@urddgobaithcymru

